**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIADAU ARIANNOL - CYFRIF GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL**
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2000

**ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR**

**Cyfansoddiad**

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru trwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994. Amcanion siartredig y Cyngor yw:

"(a) datblygu a gwella ymarfer y celfyddydau, a gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt;

"(b) cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;

"(c) cynghori a chydweithredu ag Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyrff eraill ar unrhyw faterion yn ymwneud, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion uchod; ac

"(ch) gweithredu'r amcanion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

Y mae'r Cyngor yn elusen gofrestredig (Rhif: 1034245) a'i hymddiriedolwyr yw'r Aelodau penodedig.
Y mae'r Cyngor wedi penodi nifer o Bwyllgorau a Phaneli Ymgynghorol i roi cyngor arbenigol ac i wneud penderfyniadau o fewn fframwaith o bwerau dirprwyedig.

**Aelodaeth a chofrestr o fuddiannau**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n penodi Aelodau Cyngor Celfyddydau Cymru; dyma'r Aelodau a wasanaethodd er 1 Ebrill 1999:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sybil Crouch, Cadeirydd | (i) | Lyn Jones (i 31 Mawrth 2000) | |
| Alwyn Roberts, Is-Gadeirydd (i 31 Mawrth 2000) | | Geraint Lewis | |
| Elinor Bennett (i 31 Mawrth 2000) | (ii) | Alan Lloyd | (v) |
| Ann Davies (i 31 Mawrth 2000) | (iii) | Geraint Stanley Jones (i 11 Chwefror 2000) | (vi) |
| Roger Davies | | | |
| Keith Evans (i 16 Gorffennaf 1999) | | Clare Thomas | |
| Katrina Gass (i 31 Mawrth 2000) | (iv) | Moira Vincentelli (i 31 Mawrth 2000) | (vii) |
| Dafydd Johnston | | | |

Y mae cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau a Phaneli Ymgynghorol, a chofrestr o fuddiannau gweithwyr cyflogedig y Cyngor ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus, trwy drefniant, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Am o leiaf ran o'r cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn gwasanaethodd aelodau o'r Cyngor (y nodir rhif mewn cromfachau wrth ochr eu henwau yn y rhestr uchod) fel Aelodau hefyd o'r cyrff cyhoeddus canlynol sy'n ymwneud â gweithgareddau tebyg:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru | (i) | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | (iii) |
| Dinas a Sir Abertawe | (v) | Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | (i) |
| Y Cyngor Crefftau | (vii) | Coleg Cerdd a Drama Cymru | (ii), (vi) |
| Cyngor Sir Fynwy | (iv) | | |

**Atebolrwydd**

Yn ogystal â gofynion y Siarter Frenhinol gweithreda'r Cyngor dan drefn atebolrwydd sy'n cynnwys:

- Deddfau Elusennau 1960 a 1993
- Datganiad Rheolaeth; Memorandwm Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cyfarwyddiadau ar Bolisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan delerau Adran 26 y Ddeddf Loteri ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd).
- põer y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth (yr Ombwdsman) i ymchwilio i faterion y Cyngor.
- Dull Gweithredu Da, sy'n berthnasol i Aelodau a staff, yn disgrifio'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan y sawl sy'n ymwneud â phenderfyniadau ariannol ac yn ymdrin â'r cyhoedd.

Ceir copïau o'r Cyfarwyddiadau ar Gyfrifon a'r Dull Gweithredu Da yn rhad ac am ddim trwy ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Cyngor.

Dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyllido'r Cyngor oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 1999. Mae'r Cyngor felly wedi diwygio ei Siarter Frenhinol i'w wneud yn gwbl atebol a chyfrifol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac i alluogi ei gyfrif gweithgareddau cyffredinol gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Prif weithgareddau**

Mae'r Cyngor yn derbyn cymhorthdal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a grantiau gan Awdurdodau Lleol (tuag at waith rhanbarthol y Cyngor). Mae'r Cyngor yn un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian i achosion da a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu ar ran y Loteri.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru. Y brif ffordd y ceisia'r Cyngor wneud hynny yw trwy roi grantiau rheolaidd ac unigol i sefydliadau ac unigolion. Ategir y grantiau hyn gan broses o fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus yn effeithiol at y diben y'i bwriedir. Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli ystod o weithgareddau a gwasanaethau ar wahân i'r grantiau, yn aml ar y cyd ag awdurdodau lleol ac eraill. Rhoddir mwy o fanylion am waith y Cyngor a'r hyn a gyflawnwyd ganddo ym 1999/2000 yn adroddiad blynyddol y Cyngor, a gyhoeddir ar wahân.

**Canlyniadau ariannol**

Dengys y cyfrifon, heb gynnwys gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, gyfanswm o adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn o £15,391,000 (1998/99: £14,999,000), adnoddau net a wariwyd o £489,000 (1998/99: adnoddau net a wariwyd o £172,000), asedion cyfredol net o £70,000 (1999: £287,000) a chyfanswm cronfeydd yn weddill ar 31 Mawrth 2000 o £3,000,000 (1999: £3,624,000). Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'n ffurfiol ddefnyddio £115,000 ym 2000/01 o'i gronfeydd digyfyngiad (1998/99: £230,000), ar gyfer prosiectau celfyddydol a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 1999/2000.

Yn ystod y flwyddyn collodd y Cyngor yr hawl i fod yn gyflogwr wedi ei dderbyn yng Nghynllun Budd-dâl Ymddeol Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf. Mae'r ffigwr ar gyfer adnoddau net a wariwyd felly wedi ei gyrraedd ar ôl codi £285,000 ar gyfer costau ymddeoliad cynnar wedi eu cyfalafu.

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Mae amcanion y Cyngor wedi eu gosod allan ar gychwyn yr adroddiad hwn. Mae'r polisïau a strategaethau ar gyfer cyflawni yr amcanion hyn yn cael eu disgrifio yn llawn yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2000-2003 sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Eiddo rhyddfraint**

Ailbrisiwyd eiddo rhyddfraint y Cyngor ym Mawrth 2000. Mae'r prisiadau gryn dipyn yn is na'r gwerthoedd llyfr blaenorol ac addaswyd y fantolen yn unol â hynny.

**Archwilio**

Penododd y Cyngor Archwilydd Cyffredinol i Gymru yn archwilydd allanol iddo, ar delerau a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gweithwyr cyflogedig anabl**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Mae'r Cyngor yn anelu'n arbennig at sicrhau nad yw unrhyw weithiwr cyflogedig posibl neu wirioneddol yn derbyn triniaeth fwy neu llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws fel rhiant, cenedl, cred wleidyddol, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

Mae'r Cyngor ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd, sy'n adlewyrchu ei ymrwymiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer gweithwyr cyflog anabl.

**Cysylltiadau â gweithwyr**

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undeb llafur MSF, ac wedi llunio cytundeb ar ddulliau gweithredu gyda'r undeb hwnnw; bydd cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n peri pryder. Yn ystod y flwyddyn lluniodd y Cyngor Bolisi Cyfathrebu staff a Chynllun Gweithredu er mwyn ffurfio fframwaith ar gyfer cryfhau gweithdrefniadau mewnol ar gyfer cyfathrebu, ymgynghori ac adrodd yn ôl gyda staff. Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor, gofynnir i Gyfarwyddwyr adrodd wrth eu staff ar faterion a drafodir yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Hŷn sydd yn cael eu cynnal pob pythefnos.

**Talu i gredydwyr**

Mae'n bolisi gan y Cyngor i dalu i gyflenwyr o fewn y telerau masnach y cytunir arnynt ac ufuddhau'n gyffredinol i egwyddorion Cod y CBI - "Prompt Payments". Talwyd 96% o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr yn ystod 1999/2000 (1998/99:98%) o fewn y telerau contract y cytunwyd arnynt.

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredydd**

Dan y Siarter Frenhinol dyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru â chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o faterion y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd ganddo a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynglþn â chyfrifo a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- farnu a llunio amcangyfrifon ar seiliau rhesymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau arwyddocaol yn y datganiadau ariannol; a

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu'r Prif Weithredydd yn Swyddog Cyfrifyddol dros y Cyngor. Disgrifir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddol, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Joanna Weston
Prif Weithredydd
14 Gorffennaf 2000

Sybil Crouch
Cadeirydd
14 Gorffennaf 2000

**DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLAETH ARIANNOL FEWNOL**

Fel y Swyddog Cyfrifyddol, rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb i sicrhau fod yna system effeithiol o reolaeth fewnol ariannol yn cael ei gynnal a'i weithredu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt gall y system ei roi fod asedau yn cael ei diogelu, trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi yn gywir, a bod gwallau materol neu anghysondebau naill ai yn cael eu rhwystro neu yn cael eu darganfod o fewn cyfnod amserol.

Mae'r system o reolaeth ariannol fewnol wedi ei selio ar fframwaith o wybodaeth reolaeth reolaidd, gweithdrefniadau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys :

- systemau trwyadl o gyllidebu gyda chyllideb flynyddol sydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor;

- adolygiadau rheolaidd gan y Tîm Rheoli Hŷn o adroddiadau ariannol achlysurol a blynyddol sydd yn cymharu perfformiad ariannol yn erbyn yr hyn a ragwelwyd;

- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;

- strwythur dirprwyedig o Bwyllgorau, Paneli Ymgynghorol a Grwpiau Swyddogion sydd yn gwneud penderfyniadau grant a phenderfyniadau eraill;

- canllawiau rheolaeth penodol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf;

- fel bo'n briodol, disgyblaeth ffurfiol ar gyfer rheolaeth brosiect

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn caffael gwasanaeth archwilio mewnol o dan gontract gan gwmni o Gyfrifwyr Siartredig (yr "archwilwyr mewnol"). Mae'r cwmni yma yn gweithredu i safonau sydd wedi eu diffinio yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol yn cael ei arwain gan ddadansoddiad o'r risg sydd yn wynebu y Cyngor, ac mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn cael eu selio ar y dadansoddiad yma. Mae'r dadansoddiad o'r risg a'r cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio y Cyngor ac yn cael eu cadarnhau gennyf i. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol yn darparu adroddiad i mi ar weithgareddau archwiliad mewnol yn y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwilwyr mewnol ar addasrwydd ac effeithiolrwydd system reolaeth ariannol fewnol y Cyngor.

Mae fy adolygiad i o effeithiolrwydd y system reolaeth ariannol fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sydd yn arolygu gwaith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb tros ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth ariannol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Fel y Swyddog Cyfrifyddol, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull a rwyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys ar gyfer paratoi datganiad o reolaeth fewnol i'w baratoi ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002, yn unol â chanllawiau i'w cyhoeddi ganddynt.

Joanna Weston
Prif Weithredydd a Swyddog Cyfrifyddol
14 Gorffennaf 2000

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**TYSTYSGRIF Y RHEOLYDD A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I GYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

Yr wyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 7 i 22, a baratowyd dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd o ganlyniad i ailbrisio rhai asedion sefydlog a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 10 a 11.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredydd a'r Archwilydd**

Fel y disgrifir ar dudalen 4 mae'r Cyngor a'r Prif Weithredydd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredydd hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a chynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nyletswyddau i fel archwilydd annibynnol, yn cael eu llywio gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio a gan ganllawiau ethegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn adrodd fy marn os yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ai peidio, a'u bod wedi eu darparu yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ym mhob cyswllt materol bod yr adnoddau a wariwyd a'r adnoddau a dderbyniwyd wedi cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, nad yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol, os yw'r Cyngor heb gadw cofnodion cyfrifo addas, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn arolygu os yw'r datganiad ar dudalen 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Cyngor â chanllawiau y Trysorlys 'Rheolaeth Gorfforaethol : datganiad ar y system o reolaeth ariannol fewnol'. Rwyf yn adrodd os nad yw yn cwrdd â gofynion penodol y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu yn anghyson gyda unrhyw wybodaeth arall a ddaeth i'm sylw yn ystod fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail fy marn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon a phenderfyniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor a'r Prif Weithredydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac yn asesu hefyd a yw polisïau cyfrifo'r Cyngor yn briodol i'w amgylchiadau, ac a ddilynir y polisïau hynny'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gynnal er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatgan arwyddocaol boed hwnnw wedi ei achosi gan gamgymeriad neu dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod yr adnoddau a wariwyd a'r adnoddau a dderbyniwyd, ym mhob ystyr arwyddocaol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- y mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2000 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd ac o'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac y maent wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- ym mhob ystyr arwyddocaol defnyddiwyd yr adnoddau a wariwyd ac a dderbyniwyd at y diben a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

John Bourne
Archwilydd Cyffredinol i Gymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

19 Gorffennaf 2000

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2000

| | Nodiadau | Cronfeydd Digyfyngiad £'000 | Cronfeydd Cyfyngedig £'000 | 2000 Cyfanswm £'000 | 1999 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | | | | |
| **Grantiau Derbyniadwy** | | | | | |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2 | 14,541 | 261 | 14,802 | 14,339 |
| Cyngor Crefftau | 2 | - | - | - | 104 |
| Awdurdodau Lleol | 3 | 64 | - | 64 | 94 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | | - | 117 | 117 | 16 |
| Arall | | 44 | - | 44 | 133 |
| | | 14,649 | 378 | 15,027 | 14,686 |
| **Incwm Arall** | | | | | |
| Gwasanaethau a Hyrwyddo Uniongyrchol | 4 | 19 | 135 | 154 | 160 |
| Llog Banc | | 48 | 1 | 49 | 55 |
| Incwm Gweithredol Arall | 5 | 160 | 1 | 161 | 98 |
| | | 227 | 137 | 364 | 313 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Dderbyniwyd** | | **14,876** | **515** | **15,391** | **14,999** |
| | | ===== | ===== | ===== | ===== |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | | | | | |
| **Gwariant Celfyddydol Elusennol Uniongyrchol** | | | | | |
| Grantiau a gwarantau | 6,7 | 12,973 | 215 | 13,188 | 12,372 |
| Gwasanaethau a Hyrwyddo Uniongyrchol | 6,7 | 440 | 135 | 575 | 822 |
| Grantiau i Fyfyrwyr | 6,7 | - | 157 | 157 | 150 |
| | | 13,413 | 507 | 13,920 | 13,344 |
| **Rheoli a Gweinyddu** | | | | | |
| Staff | 6,8 | 1,336 | 7 | 1,343 | 1,215 |
| Arall | 6,9 | 617 | - | 617 | 612 |
| | | 1,953 | 7 | 1,960 | 1,827 |
| **Adnoddau a Wariwyd** cyn costau tybiannol cyfalaf | | 15,366 | 514 | 15,880 | 15,171 |
| Costau tybiannol cyfalaf | | 199 | - | 199 | 214 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd** | | **15,565** | **514** | **16,079** | **15,385** |
| | | ===== | ==== | ===== | ===== |
| **Adnoddau Net a Dderbyniwyd / (Wariwyd)** | | (689) | 1 | (688) | (386) |
| Gwyrdroi costau tybiannol cyfalaf | | 199 | - | 199 | 214 |
| **ADNODDAU NET A (WARIWYD) / DDERBYNIWYD YN Y FLWYDDYN** | | **(490)** | **1** | **(489)** | **(172)** |
| **Enillion a Cholledion Cydnabyddedig Eraill** | | | | | |
| (Colledion) / enillion nas gwireddwyd ar ailbrisio asedion sefydlog | | (135) | - | (135) | 279 |
| **SYMUD NET MEWN CRONFEYDD** | | **(625)** | **1** | **(624)** | **107** |
| Gweddillion cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | | 3,616 | 8 | 3,624 | 3,517 |
| **Gweddillion cronfeydd a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth** | | **2,991** | **9** | **3,000** | **3,624** |
| | | ==== | ==== | ==== | ==== |

Mae pob gweithgaredd yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**MANTOLEN**
Ar 31 Mawrth 2000

| | | 2000 | | 1999 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 10 | | 3,120 | | 3,337 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Grantiau a dalwyd ymlaen llaw | | - | | 26 | |
| Dyledwyr a blaendaliadau eraill | 11 | 610 | | 554 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 203 | | 561 | |
| | | 813 | | 1,141 | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol :** symiau i'w talu o fewn blwyddyn | | | | | |
| Grantiau a gwarantau taladwy | | (385) | | (469) | |
| Credydwyr eraill i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | (358) | | (385) | |
| | | (743) | | (854) | |
| **Asedau net cyfredol** | | | 70 | | 287 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 3,190 | | 3,624 |
| Credydwyr : symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn - Credydwyr eraill | | | (190) | | - |
| **Asedau net** | | | **3,000** | | **3,624** |
| | | | ===== | | ===== |
| Cynrychiolir gan: | | | | | |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 13 | | 9 | | 8 |
| Cronfeydd digyfyngiad | 13 | | 2,991 | | 3,616 |
| | | | **3,000** | | **3,624** |
| | | | ===== | | ===== |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar 14 Gorffennaf 2000 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan

Joanna Weston
Prif Weithredydd a Swyddog Cyfrifyddol

Sybil Crouch
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

| | | 2000 | 1999 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 |
| **Llif arian net (allan) / i mewn o weithgareddau gweithredu** | 14a | (261) | 41 |
| Gwariant cyfalaf | 14b | (97) | (58) |
| **Lleihad mewn arian yn y flwyddyn** | 14c | **(358)** | **(17)** |
| | | ==== | ==== |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

**1. Polisïau Cyfrifo**

**a Confensiynau cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei addasu i gynnwys rhai asedion sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn cydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 1993, y Datganiad o Arfer a Argymhellir, 'Accounting for Charities' a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a safonau cyfrifyddol ac adrodd ariannol cymwysadwy a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo.

**b Incwm**

Rhoddir cyfrif am yr holl incwm ar sail dderbyniadwy. Ymdrinnir â grantiau cyfalaf derbyniadwy fel adnoddau a dderbyniwyd.

**c Dosbarthu arian y Loteri**

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys gwaith dosbarthu'r Cyngor dros y Loteri; paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar hynny yn unol â'r Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae rhai o gostau'r Cyngor yn berthnasol i'w weithgareddau cyffredinol ac i'w waith dosbarthu ar ran y Loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgaredd hyn gan ystyried yr amser a dreulir neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddir gan y gwahanol weithgareddau.

**ch Grantiau a gwarantau**

Telir cymorthdaliadau ar ffurf grantiau a gwarantau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau ac unigolion a noddir gan y Cyngor ac a dderbynnir yn ffurfiol ganddynt. Cynigir grantiau a gwarantau i gefnogi rhaglen o weithgareddau a gynllunnir ar gyfer blwyddyn ariannol arbennig, neu sydd i ddechrau yn ystod y flwyddyn honno, ac fe'u cynhwysir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn honno. Dangosir unrhyw symiau nas talwyd o'r grantiau a'r gwarantau ar ddiwedd y flwyddyn fel credydwyr yn y Fantolen. Caiff unrhyw flaendaliadau a wnaed sy'n berthnasol i grantiau a gymeradwywyd yn ymwneud â gweithgareddau blynyddoedd i ddod eu dangos yn y Fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir pob grant a gwarant yn adroddiad blynyddol y Cyngor, a gyhoeddir ar wahân. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn rhoi gwybodaeth am lawer o'r cynlluniau hyrwyddo uniongyrchol a drefnir gan y Cyngor.

**d Asedau sefydlog**

Prisir adeiladau rhyddfraint yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol ac eithrio Theatr Sherman a brisir ar sail cost dibrisiedig adeilad newydd.

Dangosir cost hanesyddol Gweithiau Celfyddyd, ac fe'u cynrychiolir gan gronfa benodedig ddigyfyngiad. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad asedau yw gweithiau celfyddyd sydd â bywyd economaidd defnyddiol o hyd benodol ac na chânt felly eu hamorteiddio.

Cynhwysir yr holl asedion sefydlog eraill yn ôl eu cost hanesyddol llai lwfans am ddibrisiant. Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerthoedd llyfr a marchnad.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**Nodiadau ar y datganiadau ariannol (parhad)**

**dd Dibrisiant**

Cynhwysir dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol mewn llinell syth dros gyfnod y bywyd defnyddiol y disgwylir iddo'i gael fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhyddfraint | dros 50 mlynedd neu amcangyfrif o'u bywyd defnyddiol os yn is |
| Adeiladau ar brydles | dros gyfnod y brydles |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | |
| - caffaeliadau hyd at 31 Mawrth 1996 | dros 4 blynedd |
| - caffaeliadau o 1 Ebrill 1996 | dros 10 mlynedd |
| Cyfarpar | dros 4 blynedd |
| Cerbydau modur | dros 4 blynedd |
| System gyfrifiadurol | dros 5 mlynedd |

Ni ddibrisir tir rhyddfraint na gweithiau celfyddyd

**e Prydlesau**

Cynhwysir costau gweithredu prydles yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel llinell syth dros gyfnod y brydles.

**f Pensiynau**

Derbyniwyd y Cyngor fel cyflogwr i Gynllun Ymddeoliad Cynghorau'r Celfyddydau 1994 ond, yn ystod y flwyddyn, collodd y Cyngor yr hawl i fod yn gyflogwr wedi ei dderbyn yng Nghynllun Blwydd-dal Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf. Mae'r ddau gynllun pensiwn yn rhoi manteision diffiniedig i weithwyr cyflogedig y Cyngor. Cynhwysir costau cyfraniadau'r Cyngor yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn rhannu cost y pensiynau dros gyfnod bywyd gwaith ei weithwyr cyflogedig.

**ff Trethiant**

Cynhwysir Treth ar Werth na ellir ei adhawlio ac sy'n deillio o weithgareddau anfasnachol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu fe'i troir yn gyfalaf fel ased sefydlog lle bo hynny'n berthnasol.

**g Cost tybiannol cyfalaf**

Cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol yn adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddir o fewn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir fel 6% o gyfartaledd y cyfalaf a ddefnyddiwyd. Yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys gwyrdroir y tâl hwn fel nad oes effaith ar gronfeydd y Cyngor a gofnodir yn y fantolen.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**Nodiadau ar y datganiadau ariannol (parhad)**

## 2. Grantiau derbyniadwy: Y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Cymhorthdal grant a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gyson â'r swm o arian a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

| | | | **2000** | 1999 |
|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd Digyfyngiad** | **Cronfeydd Cyfyngedig** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cymhorthdal ariannol a dalwyd yn llawn | 14,541 | 157 | 14,698 | 14,339 |
| Cymhorthdal grant ychwanegol a drosglwyddwyd o'r Cyngor Crefftau ac a dalwyd yn llawn | - | 104 | 104 | - |
| Cymhorthdal grant a gredydwyd i Adnoddau a Dderbyniwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol | **14,541** | **261** | **14,802** | 14,339 |
| | ===== | ==== | ===== | ===== |

Mae'r Cyngor Crefftau wedi uno â Chyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd grantiau i gefnogi gweithgaredd celf yng Nghymru yn cael eu derbyn yn uniongyrchol o'r Cyngor Crefftau hyd at 31 Mawrth 1999. O 1 Ebrill 1999 trosglwyddwyd y grant trwy'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 3. Grantiau derbyniadwy: Awdurdodau Lleol

| | | |
|---|---|---|
